# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus
(Chwefror – Mehefin 2022)

## Dalgylch Bangor.



# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy’n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i’r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy’n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **12** o Gynghorau Cymuned/Tref/Dinas, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol yn Nalgylch Bangor gyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda’r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o’r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i’r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i’r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy’r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:


- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:


- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**


## 2.1 **Nifer o ymatebwyr fesul ardal***






*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.


## 2.2 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.









YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
1963
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
1641
DARLLEN CYMRAEG
1577
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
1413
DDIM YN DEALL CYMRAEG
706
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
449
0
500
1000
1500
2000
2500



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
1880
SEISNIG
482
ALBANAIDD
21
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
2
PRYDEINIG
844
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
212
ARALL:
97
0
500
1000
1500
2000


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000



PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
3055
DYN HOYW
47
DYNES HOYW / LESBIAN
29
DEURYWIOL (BISEXUAL)
53
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
425
ARALL:
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500

YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
46
NA
3218
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500






A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
317
NAC YDW
3068
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


# 3 Canlyniadau Dalgylch Bangor


## 3.1 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer dalgylch Bangor.


3.2 Derbyniwyd **344** o ymatebion i'r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer dalgylch Bangor.










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
DARLLEN CYMRAEG
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
DDIM YN DEALL CYMRAEG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
164
162
141
120
80
46
0
20
40
60
80
100
120
140
160
180



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
SEISNIG
ALBANAIDD
PRYDEINIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
190
27
2
87
19
20
0
50
100
150
200


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
299
4
7
2
5
25
3
0
50
100
150
200
250
300
350


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
160
3
1
2
1
81
67
28
0
20
40
60
80
100
120
140
160
180


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
272
DYN HOYW
11
DYNES HOYW
3
DEURYWIOL (BISEXUAL)
6
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
47
ARALL:
5
0
50
100
150
200
250
300


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
9
NA
304
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
31
0
50
100
150
200
250
300
350


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
34
NAC YDW
275
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
36
0
50
100
150
200
250
300

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul dinas, tref neu bentref yn Nalgylch Bangor.

4.1 Mae’r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref yn Nalgylch Bangor.

| **Tref/Pentref** | **Nifer o ymatebwyr** |
|---|---|
| • Bangor | **211** |
| • Y Felinheli | **47** |
| • Penrhosgarnedd | **43** |
| • Arall | **21** |
| • Pentir | **12** |
| • Glasinfryn | **5** |
| • Treborth | **3** |

# 5 Beth sy'n dda am ddalgylch Bangor?

5.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Dinas / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Bangor. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Dalgylch Bangor i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sy'n dda am Ddalgylch Bangor?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Y ffaith fod Prifysgol yn yr ardal | **184** |
| • Treftadaeth a hanes yr ardal a'r ffaith fod Bangor yn ddinas ddiwylliannol ac amrywiol | **134** |
| • Mae'n ardal ddiogel | **125** |
| • Yr iaith Cymraeg a'r diwylliant | **106** |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol yr ardal | **104** |
| • Trafnidiaeth gyhoeddus dda | **105** |
| • Llwybrau cerdded a beicio o safon | **82** |
| • Adnoddau iechyd yn yr ardal | **81** |
| • Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gwirfoddol gweithgar yr ardal | **63** |
| • Cyfleusterau fel siopau, caffis a bwytai | **62** |
| • Traddodiad creadigol a chelfyddydol cyfoethog yr ardal | **45** |
| • Mae ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd ar gael i bobl ifanc yn lleol | **14** |
| • Economi nos fywiog dinas Bangor | **11** |

5.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Ddalgylch Bangor sydd heb ei restru uchod'**, derbyniwyd **95** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Dalgylch Bangor. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e.

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Lle cyfleus i fyw e.e. yn agos i'r môr, mynyddoedd, lleoliadau eraill, yr A55 a'r rheilffordd. | **24** |
| • Yr Amgylchedd naturiol gan gynnwys mannau gwyrdd yn ninas Bangor a'r cyffiniau e.e. Gwarchodfa Natur Eithiniog | **22** |
| • Pier Bangor | **10** |
| • Ysgolion da | **8** |

5.3 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbynwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Ddalgylch Bangor?

6.1 Mae’r tabl isod yn rhestru’r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Dinas / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Bangor. Fel rhan o’r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Dalgylch Bangor i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd ddim mor dda am Ddalgylch Bangor?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Y Stryd Fawr wedi dirywio a dim digon yn cael ei wneud i’w adfywio | **296** |
| • Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu | **166** |
| • Mae’r economi leol yn fregus a ddim yn creu swyddi da i bobl leol | **157** |
| • Effaith tai myfyrwyr ar ardaloedd preswyl | **154** |
| • Problemau yn ymwneud â pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o’r ardal | **124** |
| • Bangor wedi colli ei hunaniaeth, diffyg cyd-weithio i gynnal digwyddiadau a chreu bwrlwm cymunedol | **121** |
| • Agweddau negyddol am yr ardal | **87** |
| • Cau clybiau ieuenctid | **79** |
| • Diffyg llwybrau cerdded a beicio o safon ac sy’n ddiogel | **76** |
| • Pryderon yn lleol am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal pobl hŷn yn yr ardal | **71** |
| • Diffyg adnoddau ym Maesgeirchen | **50** |
| • Cyswllt y Brifysgol gyda chymunedau lleol | **41** |
| • Diffyg cyd-weithio rhwng mudiadau a chynghorau cymuned/dinas lleol | **40** |
| • Dim digon yn cael ei wneud i uchafu potensial Amgueddfa ac Oriel Storiel | **27** |

6.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd ddim mor dda am Ddalgylch Bangor sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **151** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Dalgylch Bangor. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. sylwadau ynghylch y Stryd Fawr (n=23), pryderon ynghylch parcio, cyflwr ffyrdd a thraffig (n=18), sylwadau ynghylch yr economi leol yn gyffredinol (n=16), materion ynghylch tai (n=15) a phryderon ynghylch Iechyd, Lles a gofal (n=8).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Edrychiad/blerwch yr ardal yn gyffredinol e.e. problemau ynghylch baw ci, sbwriel, graffiti, cyflwr adeiladau a diffyg mannau gwyrdd. | **36** |
| • Diffyg gweithgareddau/cyfleon ac adnoddau i bobl ifanc yr ardal. | **15** |
| • Pryderon ynghylch ymddygiad gwrth-gymdeithasol a chyffuriau yn yr ardal. | **15** |
| • Teimlad y gall trafnidiaeth gyhoeddus fod yn well. | **14** |
| • Canfyddiad o ddiffyg presenoldeb yr Heddlu yn yr ardal. | **6** |

6.3 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbynwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Nalgylch Bangor dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Dinas / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Bangor. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Dalgylch Bangor i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Nalgylch Bangor dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi? | Nifer o weithiau ddaru'r thema cael ei ddewis |
|---|---|
| • Cynlluniau i ddatblygu ac adfywio'r Stryd Fawr | **260** |
| • Datblygu cynlluniau i gwrdd ag anghenion pobl ifanc yr ardal | **154** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **150** |
| • Cynlluniau i gadw cymunedau'r ardal yn lan a thaclus | **137** |
| • Cynlluniau i daclo agweddau negyddol a magu balchder yn y ddinas a'r ardal gyfagos | **106** |
| • Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio | **101** |
| • Rhoi mwy o sylw i'r ardaloedd tu hwnt i ganol dinas Bangor | **91** |
| • Cynlluniau i drefnu a hyrwyddo mwy o ddigwyddiadau fel ffeiriau yn lleol | **75** |
| • Safonau cynllunio ar ddatblygiadau adeiladu | **63** |
| • Lleoli mwy o swyddfeydd Cyngor Gwynedd ym Mangor | **61** |
| • Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac sy'n cefnogi dysgwyr yr iaith | **60** |
| • Cynlluniau i ddatblygu cydweithio mwy effeithiol rhwng Cyngor Gwynedd, Cynghorau Cymuned a grwpiau lleol | **58** |
| • Datblygu cynllun 'Parcio a Theithio' (Park and Ride) yn ardal Ysbyty Gwynedd | **53** |
| • Cynlluniau i ddatblygu parc y ddinas | **52** |
| • Cynlluniau i ddatblygu mwy o brosiectau i ddathlu treftadaeth a hanes cyfoethog yr ardal | **50** |
| • Cynllun atal llifogydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer ardal Hirael | **45** |
| • Cynlluniau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Brifysgol a'r gymuned | **42** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod'**, derbyniwyd **104** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Dalgylch Bangor. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Datblygu cynlluniau i gwrdd ag anghenion pobl ifanc yr ardal (n=10); Cynlluniau i ddatblygu ac adfywio'r Stryd Fawr (n=7); Cynlluniau i drefnu a hyrwyddo mwy o ddigwyddiadau fel ffeiriau yn lleol (n=6); Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio (n=6); Cynlluniau i gadw cymunedau'r ardal yn lan a thaclus (n=4); Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati (n=4).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Cynlluniau i greu swyddi gwerth uchel a denu cwmnïau/busnesau i'r ardal | **10** |
| • Cynlluniau i ddarparu tai ar gyfer pobl leol i'w prynu ac eu rhentu | **8** |
| • Mynd i'r afael gyda problemau traffig, gyrru a pharcio e.e. ym Mangor uchaf | **8** |
| • Cynlluniau i wella trafnidiaeth cyhoeddus | **6** |
| • Cynlluniau i wella caeau chwarae a mannau gwyrdd i gynnal chwaraeon | **5** |

7.3 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbynwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau dalgylch Bangor yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorfforí prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella Dalgylch Bangor.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8,4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.4 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru)

8.5 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.

CYNGOR GWYNEDD

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

www.gwynedd.llyw.cymru | 01766 771000